**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 8.20 y.h. ar Nos Lun 18.05.2026
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cyng. Amy Evans (Cadair.), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng.Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Eifion Jones.

Croesawodd y Cyng. Amy Evans aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

**11.Datgelu Buddianau Personol:**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.

**12. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.04.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Aled Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.

**13.Materion i'w hadrodd**
a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
- Un Llais Cymru-Cynhadledd Genedlaethol a Seremoni Wobrwyo 1/7/26 Llanelwedd-£99-clerc gysylltu ag U.Ll.C. er mwyn darganfod a fydd y wobr o ddau docyn a enillodd y Cyng. B.D. llynedd yn talu cost dau gynrychiolydd i gynhadledd eleni.
- Yswiriant y Cyngor -Cafodd y clerc bris gan Clear Council Insurance a Howden Brokers ar yr un telerau a ddarparwyd gan yr yswiriant presennol. O'r dyfynbrisiau/ gwybodaeth a ddarparwyd daethpwyd i'r casgliad mai Zurich oedd yn rhoi'r gwerth gorau am arian am £660.75 yn dilyn disgownt o £12.94. Penderfynodd y Cyngor adnewyddu gyda Zurich Municipal ar gyfer 2026/27.

**14.Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*
Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin wedi'i ddiwygio - cyfnod ymgynghori o 11.05.26 hyd yr amser cau am 11:59 ar 26 Mehefin 2026 - penderfynwyd rhoi'r eitem hon ar Agenda mis Mehefin er mwyn rhoi mwy o amser i'r aelodau astudio'r ddogfen.

**15.Cynllunio**
Ni dderbyniwyd ymgynghoriadau cynllunio newydd.
Eitemau Cynllunio byw - PL/10680 - dileu Amodau 9 a 10 o ganiatâd cynllunio: PL/04884 - er na dderbyniwyd llythyr ymgynghori - adroddodd y Cyng. B.D. for yr Awdurdod Lleol wrthi'n ymchwilio i weld a yw'r amodau'n parhau i fod yn berthnasol ai peidio. E Davies

**16.Taliadau a Chyllid**
**Taliadau:**

- ME Davies Cyflog y Clerc -Ebrill a Mai 2026 - symiau i'w hailgyfrifo yn unol â'r adolygiad cyflog..
- Maria Thomas Ebrill 2026 £230.00
- Un Llais Cymru £99 neu swm llai yn dibynnu ar symiau'r tocynnau gwobr.
- Un Llais Cymru - Cost Hyfforddi - £44 clerc I wirio a oes gostyngiad cyn talu..
- Yswiriant Zurich - Adnewyddu 2026/27 £660.75
- Trydan E.D.F. - 01.04.26-30.04.26 £ 43.88
- Clay Shaw Butler Ltd. Cyflogres - £366.00 (gan gynnwys TAW)

*Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.Cynigiwyd gan y Cyng. J.E. ac eiliwyd gan y Cyng. A.J..*

**Derbyniadau:**

- Rhandaliad cyntaf y praesept a dderbyniwyd yn y swm o £8,294.00 ar 29 Ebrill 2026.
-

***ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU***

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 Ebrill 2026 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

**17.Materion Priffyrdd:**

**Diweddariad ar materion adroddwyd ar 20.04.26**

- Man aros - Cwmduad - malurion wedi'u gadael yn dilyn gwaith ffordd diweddar wedi'u clyrio.
- C1313 - Ffordd at y Fynwent - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol wael - Rhoddodd y Cyng. B.D. wybod I'r cyfarfod bod y Peiriannydd Ffordd wedi bod allan a bod y mater mewn llaw.

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 18.05.26***

*a) Mae angen gwasanaeth bws drwy Hermon.*
*b)SA33 6TL. - Draeniau y tu allan i'r Bluebell, y gratiau wedi'u codi ond yn lle'r concrit o'u cwmpas sydd fel arfer yn Cadw'r gratiau yn eu lle, mae un ochr wedi'i phacio â cherrig.*
*c) Adroddodd y Cyng.E.D. fod coed yn yr afon ger tro Mile End. Clerc i gysylltu â C.N.C. a Chyngor Sir Caerfyrddin.*
*d) Dywedodd y Cyng. J.E. fod angen sylw ar y bont ar y llwybr heibiio'r Eglwys i Beili, gofynnodd pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r bont. Gallai hyn fod yn rhan o rwydwaith llwybrau cyhoeddus. Clerc i wneud ymholiadau a rhoi hyn ar yr agenda ar gyfer mis Mehefin.*
*e) Twll yn y ffordd rhwng Maudsland ac Heather View - wedi ei lenwi dros dro ond ddim yn digon da a mae'r twll yn dod i'r golwg eto. Mae angen ei atgyweirio'n iawn.*
*f) Adroddodd y Cyng. A.E. fod llawer o bobl yn y pentref wedi dweud eu bod wedi cynhyrfu gan y defnydd diweddar o chwynladdwr ar lawer o gaeau ar yr un pryd yng Nghynwyl Elfed yn ddiweddar. Roedd yn edrych fel pe bai llawer o chwynladdwr wedi'i ddefnyddio ac mae'n ymddangos hefyd bod y chwyn a'r glaswellt wedi'u dinistrio gan adael heb lawer o Barth Byffer rhwng y gwrychoedd nac hefyd yr afonydd. Cyfarwyddwyd y clerc i gysylltu â C.N.C.*
*g) Tipio anghyfreithlon rhwng Pump Heol a Ty-coch.- mae Rhan fwyaf wedi'i glirio ond mae'n parhau i fod yn broblem.*
*h) Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu - Clerc i anfon e-bost at Martin Dickenson i holi iddo ymweld a'r Cyngor yn ystod cyfarfod mis Mehefin.*

**18. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Mae angen clirio'r ardal o amgylch y Mesurydd Dŵr er mwyn cael mynediad at y mesurydd a'i ddarllen. Y clerc i gysylltu â swyddog lleol Dŵr Cymru ynglŷn â gwneud y mesurydd dŵr yn fwy hygyrch.
- Gofynnodd y clerc a oedd y nwyddau trydan wedi cael eu wirio, roedd y Cyng. J.E. yn credu eu bod wedi'u wneud ddiwethaf ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Clerc i edrych mewn i wybodaeth am y drefn wiriadau cynnal a chadw yn y cyfleusterau a hefyd y periannau golchi/sychu dwylo.
- Bydd y contract trydan presennol yn dod i ben ym mis Medi.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**

- Mae’r peiriant torri gwair wedi’i atgyweirio. Mae bwrdd picnic newydd wedi’i brynu gan nad oedd yr un presennol yn ddiogel mwyach. Adroddodd y Cyng. B.D. for y Cyngor Sir yn mynd i atgyweirio’r ffens wrth ymyl y ffordd ac ailosod y ffens gyswllt cadwyn.

**Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed**
Bydd y neuadd nawr ar agor bob bore Sadwrn rhwng 10:00 a 12:00 canol dydd i wirfoddolwyr lanhau a gwneud gwaith i gynnal a chadw’r neuadd.

**19.Unrhyw Fater Arall.**
**Cŵyn Adran 137:**
Derbyniodd y Cyng. A.E. (Cadeirydd), Cyng. J.E. a’r Cyng. R.B.gŵyn yn dilyn peidio â hysbysu ymgeisydd mewn modd amserol a chywir nad oedd ei gais wedi bod yn llwyddiannus. Cyfaddefodd y. Clerc either bod wedi methu ar yr achlysur hwn wrth beidio ag anfon e-bost ar yr un pryd â’r ymgeiswyr llwyddiannus.  Roed cofnodion rhif 106 o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.03.26 yn gywir, fodd bynnag nid oedd yr e-bost yn adlewyrchu hyn. Cytunodd y Cyngor fod y Cyng. A.E. (Cadeirydd), y Cyng. R.B. a’r Cyng. J.E. wedi delio â’r gŵyn yn gywir drwy wneud eu gorau i unioni pethau drwy ddod o hyd i atebion. Penderfynwyd mai’r penderfyniad gwreiddiol I beidio â rhoi arian oedd y penderfyniad cywir.  Penderfynwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu llythyr ymddiheuro ar ran y Cyngor am y dryswch a achoswyd gan yr e-bost hwyr ac aneglur.

•*Hyfforddiant -  Un Llais Cymru-ceisiadau am hyfforddiant gweminar am ddim - pedwar lle am ddim ar Gyfer pob modiwl gyda gostyngiad o 50% ar ôl defnyddio lleoedd am ddim*.

- Modiwl 24 - Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu -Cyng.A.E. a R.B. i fynychu.
- **Hybysebu am clerc newydd.** Mae’r clerc wedi cael Cyngor gan Un Llais Cymru ynghylch sut i hysbysebu am glerc newydd. Mae’n bwysig bod y Disgrifiad Swydd yn gywir.  Os nad oes ymgeiswyr cymwys mae hi’n hapus i weithio ochr yn ochr â chlerc newydd tra byddant yn ennill cymwysterau a bydd yn fodlon parhau fel Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor nes bod y clerc newydd yn barod i gymryd drosodd y ddwy swydd os bydd angen.

**20. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**
Cynhelisr y Cyfarfod Misol nesaf ar: Nos Lun, **15 Mehefin 2026**
am**:  7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21.15 o’r gloch.

……………………………………………………………
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

……………………………………………………………
Dyddiad.